

Polisi Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data

Mynegai		Tudalen
1.0	Datganiad Polisi	1
2.0	Cyfrifoldebau	1
3.0	Cysylltiadau â pholisïau eraill	1
4.0	Y Canllawiau sydd ar gael	2
5.0	Cynllun Cyhoeddi'r Ombwdsmon	2
6.0	Darparu Gwybodaeth	2
7.0	Codi tâl	4
8.0	Ceisiadau am Wybodaeth Bersonol	5
9.0	Cwynion	5
10.0	Eithriadau	6
11.0	Manylion cyswllt	6
Atodiad A	Cynllun Cyhoeddi'r Ombwdsmon	8

1, Datganiad Polisi

1.1 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i fod yn agored a thryloyw wrth ddarparu gwybodaeth i bob person a sefydliad sy'n dymuno cael gwybodaeth. Gan gyfrannu at yr ymrwymiad hwnnw, bydd yn sicrhau y bydd y sefydliad yn ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am wybodaeth a wnaed dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (DDD) a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG), yn amodol ar unrhyw eithriadau y bydd efallai'n dymuno eu hawlio dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

1.2 Pan ddaw ceisiadau am wybodaeth i law, rhaid i bob aelod o staff fod yn ymwybodol o ofynion statudol DDD a DRhG, a chyfeirio'r cais yn ddi-oed at Reolwr y Gwasanaethau Corfforaethol, a fydd yn trefnu anfon ymateb priodol. Cyfrifoldeb Rheolwr y Gwasanaethau Corfforaethol (neu aelod o staff a ddirprwywyd yn absenoldeb Rheolwr y Gwasanaethau Corfforaethol) yw ymateb i gais am wybodaeth a wnaed dan DDD neu DRhG. Dylid sylwi, er nad yw cais efallai'n cyfeirio'n benodol at y ddeddfwriaeth, rhaid prosesu pob cais am wybodaeth yn gwbl unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.

2. Cyfrifoldebau

2.1 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am y polisi hwn. Ef hefyd fydd y swyddog adolygu pan geir apêl yn erbyn penderfyniad Rheolwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

2.2 Rheolwr y Gwasanaethau Corfforaethol (neu aelod o staff a ddirprwywyd yn absenoldeb Rheolwr y Gwasanaethau Corfforaethol) sy'n gyfrifol am ymateb i geisiadau am wybodaeth, gan geisio cyngor gan Gynghorydd Cyfreithiol yr Ombwdsmon pan fydd angen, ac am sicrhau y caiff cronfa ddata'r DRhG ar system CHAS ei diweddarau.

2.3 Bydd Cynghorydd Cyfreithiol yr Ombwdsmon yn darparu cyngor yn ôl yr angen i Reolwr y Gwasanaethau Corfforaethol ynghylch datgelu gwybodaeth, ac i'r swyddog hwnnw sy'n gyfrifol am baratoi a diweddarau cynllun cyhoeddi'r Ombwdsmon.

3. Cysylltiadau â Pholisïau Eraill

3.1 Gellir datgelu pob un o bolisïau'r Ombwdsmon.

3.2 Rhaid delio â phob cais am wybodaeth yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg yr Ombwdsmon, os yw'n berthnasol.

4. Y Canllawiau sydd ar Gael

4.1 Gellir cael canllawiau am ddatgelu gwybodaeth gan Reolwr y Gwasanaethau Corfforaethol (gweler adran 11 – manylion cyswllt), neu ar ein gwefan yn www.ombudsman-wales.org.uk.

5. Cynllun Cyhoeddi'r Ombwdsmon

5.1 Mae cynllun cyhoeddi'r Ombwdsmon wedi'i amgáu fel Atodiad "A". Mae ar gael ar ein gwefan (www.ombudsman-wales.org.uk) ac ar gais gan Reolwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

6. Darparu Gwybodaeth

6.1 Mae'n bosib cael gafael ar rywfaint o wybodaeth sydd ar gael dan gynllun cyhoeddi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn uniongyrchol ar-lein oddi ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Os nad yw ar gael, neu os na chynhwysir yr wybodaeth yn ein cynllun cyhoeddi, a fydddech cystal â chyflwyno cais ysgrifenedig at Reolwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 5 LJ, ffacs 01656 641199 neu anfon e-bost at ask@ombudsman-wales.org.uk

Wrth ofyn am wybodaeth, a fydddech cystal â chynnwys y manylion canlynol:

- Eich enw a chyfeiriad
- Yr wybodaeth neu'r dogfennau yr hoffech eu gweld
- Y fformat yr hoffech i'r wybodaeth gael ei hanfon atoch (h.y. ar ffurf copi caled, e-bost neu ar ddisg cyfrifiadur).

6.2 Byddwn yn darparu gwybodaeth, yn amodol ar unrhyw eithriadau y dymunwn eu hawlio dan y ddeddfwriaeth berthnasol, sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, yn unol â'r amserlenni penodedig.

- a. Darperir copïau o ddogfennau cyfeirio, megis datganiadau polisi a chanllawiau gweithdrefnol, naill am ddim, neu fel y cyhoeddwyd yn ein Cynllun Cyhoeddi, sydd ar gael gan Reolwr y Gwasanaethau Corfforaethol neu ar ein gwefan yn www.ombudsmanwales.org.uk.
- b. Byddwn fel arfer yn cadarnhau cyn pen pum niwrnod gwaith a yw'r wybodaeth y gofynnir amdani yn ein meddiant ai peidio, a byddwn naill ai yn ei darparu'n ddi-oed neu cyn pen 20 niwrnod gwaith, fel sy'n

ofynnol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu cyn pen 40 diwrnod gwaith, fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf Diogelu Data.

- c. Pan wneir cais am wybodaeth yn bersonol neu dros y ffôn, a'i fod yn gymharol syml, byddwn yn ymateb mewn modd anffurfiol. Mewn achosion mwy cymhleth, gofynnwn i chi wneud cais ar bapur (llythyr, e-bost neu ffacs) er mwyn sicrhau bod gennym ddatganiad clir o'r hyn y gofynnir amdano.
- d. Pan fydd yn briodol byddwn yn darparu gwybodaeth a olygwyd, yn unol ag unrhyw eithriadau y byddai'n addas eu defnyddio dan y ddeddfwriaeth.

Enghraifft 1: Cais am ddogfen sy'n cynnwys manylion pobl eraill ar wahân i'r sawl a wnaeth y cais. Ar yr amod bod y datgeliad yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol (e.e. Deddf Diogelu Data, Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru), yna efallai byddwn yn cytuno i ddarparu'r ddogfen gyda chyfeiriadau at bobl eraill wedi'u hepgor, ar yr amod na fydd modd gweld pwy yw'r "person arall" yng ngweddill y ddogfen.

6.3 Er ein bod yn darparu'r rhan fwyaf o wybodaeth yn rhad ac am ddim, mae'n bosibl y byddwn yn codi tâl am lungopïo/argraffu/ffacsio/postio dogfennau hwy, lle nad yw'r wybodaeth y gofynnir amdani wedi'i rhestru yn ein Cynllun Cyhoeddi fel gwybodaeth sydd naill ar gael am ddim neu am dâl a nodwyd. Os gwneir cais am gael yr wybodaeth mewn fformat gwahanol a drud, mae'n bosibl y byddwn yn codi tâl am hyn, yn amodol ar ddeddfwriaeth megis y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

6.4 Os bwriadwn godi tâl am ddarparu gwybodaeth, byddwn yn rhoi gwybod ymlaen llaw i'r sawl a wnaeth y cais beth fydd y gost (drwy hysbysiad ffioedd) ac yn darparu'r wybodaeth pan ddaw'r taliad i law (arian parod neu siec).

6.5 Nid yw'r amser a gawn i ddarparu'r wybodaeth – 20 neu 40 diwrnod (gweler 6.2.b uchod) – yn cynnwys y cyfnod rhwng cyhoeddi'r hysbysiad ffioedd a derbyn y taliad.

6.6 Mae'n bosibl na fydd modd i ni ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:

- a. Nid yw'r wybodaeth yn ein meddiant
- b. Rydym yn gwneud cais am eithriad rhag datgelu
- c. Byddai'n costio mwy na'r "swm priodol" i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddarparu'r wybodaeth. Efallai y byddwn yn cynnwys costau pennu a yw'r wybodaeth yn ein meddiant, ei lleoli, cael gafael

arni ac yna ei thynnu allan. Pan fydd y costau hyn yn ymwneud â'r amser a dreuliwyd gan aelodau staff yr Ombwdsmon neu bobl eraill yn cyflawni'r gweithgarwch perthnasol ar ran yr Ombwdsmon, rhaid eu cyfrif ar y gyfradd safonol a bennwyd.

d. Y "gyfradd safonol" ar hyn o bryd yw £25 yr awr.

e. Y "swm priodol" sydd wedi'i bennu ar hyn o bryd yw £450.

6.7 Oni allwn gydymffurfio â chais, gwnawn bopeth o fewn ein gallu i roi gwybod i'r sawl sy'n gwneud y cais sut y gallai gael yr wybodaeth yn rhywle arall neu mewn ffordd arall.

7. Codi tâl

7.1 Mae eitemau penodol a restrir yng nghynllun cyhoeddi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gael ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru www.ombudsman-wales.org.uk a gellir eu lawrlwytho am ddim. Mae rhan fwyaf o'r dogfennau mewn fformat pdf. Rhaid cael Adobe Acrobat Reader i ddarllen y rhain. Mae hwn ar gael am ddim a gellir ei lawrlwytho oddi ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Hefyd gellir cael copïau papur o bob dogfen a gyhoeddir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn rhad ac am ddim. Codir tâl am lungopïo a phostio os archebir copïau niferus.

Gellir cyflwyno deunydd wedi ei deipio mewn print bras os gofynnir amdano. Gellir hefyd wneud trefniadau i gynhyrchu rhai dogfennau penodol mewn Braille neu ar dâp sain.

Mae adroddiadau ymchwiliadau i gwynion a/neu honiadau unigol ar gael am ddim am gopïau unigol. Codir tâl am lungopïo/postio os archebir copïau niferus.

7.2 Codir ffi o 10c y ddalen ar gyfer llungopïo, argraffu a ffacsio. Bydd costau postio ar y gyfradd briodol. Ar gyfer eitemau mwy sylweddol, mae'r ffi a godir yn dibynnu ar a ydym yn amcangyfrif y byddai'n costio mwy neu'n costio llai na'r "swm priodol" i ddarparu'r wybodaeth (gweler adran 6.6 uchod).

7.3 Yn y mwyafrif helaeth o achosion, bydd y costau a gyfrifir yn is na'r "swm priodol". Adeg hynny byddwn yn codi tâl am lungopïo, argraffu, ffacsio a phostio yn unig. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn codi tâl am unrhyw waith angenrheidiol i roi'r wybodaeth yn y fformat gofynnol, a allai gynnwys, er enghraifft:

- crynhoi'r wybodaeth
- rhoi'r wybodaeth ar CD, fideo neu dâp sain

- cyfieithu'r wybodaeth i iaith arall

Fel arfer, ni fyddwn yn codi tâl am ddarparu gwybodaeth mewn fformat gwahanol pan wneir cais am hyn ar sail anabledd.

7.4 Pan fyddwn yn amcangyfrif bod cost bodloni cais yn debygol o fod yn uwch na'r "swm priodol", a'n bod yn cytuno i ddarparu'r wybodaeth, byddwn yn defnyddio'r un lefel taliadau, ond byddwn hefyd yn codi tâl am amser staff ar y "gyfradd safonol". Os bydd amser staff yn costio llai na £5, byddwn yn hepgor y rhan honno o'r ffi.

7.5 Efallai y byddwn yn gwrthod cydymffurfio â chais am wybodaeth os cyfrifir bod y gost o dderbyn cais yn fwy na'r "swm priodol" ac na cheir digon o adnoddau i ddelio â'r cais.

8. Ceisiadau am wybodaeth bersonol (ceisiadau am hawl i weld gwybodaeth)

8.1 Ceir ymateb llawn i geisiadau am wybodaeth bersonol, sef 'ceisiadau am hawl i weld gwybodaeth' cyn pen 40 diwrnod gwaith.

8.2 Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru godi hyd at £10 am ymateb i gais am hawl i weld gwybodaeth, ond dim ond pan fydd y gost yn fwy na £5 y byddwn yn gwneud hynny. Yn yr achos hynny, byddwn yn codi tâl o 10c y ddalen am lungopïo, argraffu neu ffacsio, hyd at yr uchafswm o £10.

9. Cwynion

9.1 Polisi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw bod mor agored â phosib a chyflwyno'r wybodaeth y gofynnir amdani pryd bynnag y bydd hynny'n bosib.

9.2 Os gwrthodir cais am hawl bersonol i weld unrhyw wybodaeth, byddwn yn ysgrifennu atoch cyn pen y cyfnod 20 niwrnod gwaith y cyfeirir ato uchod i esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad.

9.3 Os nad ydych yn fodlon mae gennych hawl i apelio. Mae hyn yn wir hefyd os credwch fod unrhyw dâl a godwyd mewn cysylltiad â chyflwyno'r wybodaeth yn annheg. Os delir unrhyw wybodaeth yn ôl o ddogfen a ryddheir dan y cynllun cyhoeddi, bydd y ddogfen wedi ei nodi'n glir i ddangos o ble y tynnwyd yr wybodaeth a cheir manylion yr eithriad y dibynnwyd arno i wneud hynny. Os byddwn yn gwrthod rhoi rhan o'r wybodaeth i chi y gofynasoch amdani byddwn yn ysgrifennu gan roi rhesymau i chi am y penderfyniad.

9.4 Os byddwch yn anfodlon â'r rhesymau a roddwyd, dylech ysgrifennu at:-

Rheolwr y Gwasanaethau Corfforaethol (gweler adran 11 - manylion cyswllt)

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fydd yn delio gyntaf oll ag unrhyw gais am adolygiad. Byddwn yn ymdrechu i roi ateb llawn i chi am eich cwyn cyn pen 28 diwrnod gwaith. Os oes rheswm da pam na fydd hyn yn bosib byddwn yn ysgrifennu i ddweud wrthyhch.

9.5 Os ydych yn dal yn anfodlon mae'n agored i chi apelio at:-

Y Comisiynydd Gwybodaeth (gweler adran 11 - manylion cyswllt),

10. Eithriadau

10.1 Eithrir rhai mathau penodol o wybodaeth rhag cael eu datgelu dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'n cynnwys ;

10.1.1 Gwybodaeth bersonol yn ymwneud â'r sawl a wnaeth y cais, gwybodaeth bersonol yn ymwneud â thrydydd partïon (Adran 40).

10.1.2 Gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol pe byddai ei datgelu yn gyfystyr â thorri amodau cyfrinachedd y gallai'r person hwnnw neu unrhyw berson arall fynd i'r llys yn ei gylch (Adran 41) a gwybodaeth y mae braint broffesiynol gyfreithiol yn berthnasol iddi (Adran 42).

10.1.3 Mae Adran 44 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eithrio datgelu'r holl wybodaeth os gwaherddir datgelu'r wybodaeth honno gan unrhyw ddeddf arall.

10.2 Dywed y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yr eithrir rhai mathau penodol o wybodaeth rhag cael eu datgelu gan gynnwys gwybodaeth sydd yn gyfrinachol dan Ddeddf Seneddol arall. (Gweler 10.1.3, uchod). Mae'r ddeddfwriaeth alluogi, sef Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, yn cyfyngu datgelu gwybodaeth a geir yn ystod ymchwiliad i un ai gŵyn am gamweinyddu ac anghyfiawnder neu honiad o gamymddygiad ar ran aelod o awdurdod lleol.

10.3 Felly, mae cwynion unigol a ffeiliau achos honiadau a ddelir gan yr Ombwdsmon wedi'u heithrio rhag darpariaethau datgelu'r ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

11. Manion cyswllt

11.1 Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Cynllun hwn neu mewn perthynas â hawl i weld ein gwybodaeth yn gyffredinol cysylltwch â:

Rheolwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Pen-y-bont ar Ogwr
CF35 5 LJ

FFÔN: 01656 641150
FFACS: 01656 641199

Gwefan: www.ombudsman-wales.org.uk
E-bost ask@ombudsman-wales.org.uk

11.2 Os ydych chi'n anhapus â'r modd yr ydym wedi delio ag unrhyw gais am wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â'r

Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer, SK9 5AF

FFÔN: 01625 545700
Ffacs: 01625 545510.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol am weithredu Deddf Rhyddid Gwybodaeth gan gynnwys cymeradwyo/diddymu cynlluniau cyhoeddi gan sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, darparu gwybodaeth a chynghori yn gyffredinol ynghylch y Ddeddf a hybu arferion da yn gyffredinol.